# SION MOWDDWY (fl. c. 1575-1613), bardd

**Enw:** Sion Mowddwy
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth
**Awdur:** Enid Pierce Roberts

Canai fawl i uchelwyr led-led Cymru, o Fostyn i Forgannwg. Arhosai'n hir ym Morgannwg weithiau. Bu ymryson rhyngddo a Meurug Dafydd o Lanisen yngl n â chlera yng Ngwent a'r cyffiniau, c. 1575-80, a bu ymryson rhyngddo hefyd a Llywelyn Siôn o Langewydd. Nid enwir mohono ymhlith beirdd eisteddfod Caerwys, 1567; efallai ei fod yn rhy ifanc. Nid oes dim sail i chwedl ' Iolo Morganwg ' mai mab i'r Tincer Coch o Fawddwy ydoedd, iddo ddilyn yr un grefft ei hun, ac iddo briodi etifeddes ym Mawddwy.

## Awdur

**Dr Enid Pierce Roberts**

## Ffynonellau


L. Hopkin-James, *Hopkiniaid Morganwg* (1909)

G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (1948)

Archifau LlGC: Llanstephan MS 38: Poetry

Archifau LlGC: Llanstephan MS 133: Poetry


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20748875


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu